OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1009

# Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011

**Tramgwyddau**

**4.**—(1) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn rheoliad 3(1) yn euog o dramgwydd, ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan baragraff (1) ac os profir bod y tramgwydd wedi ei wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath,

mae'r person hwnnw yn euog o'r tramgwydd yn ogystal â'r corff corfforaethol.

(3) At ddibenion paragraff (2), ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.